NMC Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Codi pryderon am nyrsys neu fydwragedd



## Beth y gallaf ei wneud os nad wyf yn fodlon â'r gofal rwyf wedi'i gael neu fod yn dyst iddo?

# Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Mae pob nyrs a bydwraig yn y DU wedi cofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB). Rydym yn rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ein nod yw diogelu'r cyhoedd.


Gwnawn hyn drwy osod safonau addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad fel y gall y nyrsys a'r bydwragedd gyflwyno gofal iechyd o safon uchel drwy gydol eu gyrfaoedd. Rydym yn gwneud yn siŵr bod nyrsys a bydwragedd yn diweddaru eu sgiliau a'u gwybodaeth ac yn cynnal ein safonau proffesiynol. Mae gennym hefyd brosesau clir a thryloyw i gynnal ymchwiliadau ac ymdrin â nyrsys a bydwragedd nad ydynt yn cyrraedd ein safonau.

## Codi pryderon am nyrsys neu fydwragedd

Ar ryw gyfnod yn eich bywyd, byddwch efallai yn mynd dan ofal nyrs neu fydwraig ac mae'n bwysig y gallwch ymddiried yn ansawdd y gofal hwnnw. Felly mae'n rhaid i bob nyrs a bydwraig ddilyn safonau a chanllawiau er mwyn bod yn addas i ymarfer.

## Pa safonau gofal y dylwn eu disgwyl gan nyrs neu fydwraig?

Y Cod: Mae safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn nodi sut y dylai nyrsys a bydwragedd ymddwyn ym mhob maes o'u hymarfer. Mae'n rhaid i bob nyrs a bydwraig gytuno i ddilyn y Cod, sy'n datgan bod yn rhaid iddynt wneud y canlynol:



- darparu safon uchel o ofal bob amser
- sicrhau mai gofal pobl sydd fwyaf pwysig iddynt, eu bod yn eu trin fel unigolion ac yn parchu eu hurddas
- bod yn agored, yn onest ac ymddwyn ag uniondeb a chynnal enw da eu proffesiwn ar bob adeg, a
- gweithio gydag eraill i ddiogelu a hyrwyddo iechyd a lles y rhai sydd yn eu gofal yn ogystal â'u teuluoedd a'u gofalwyr hefyd.

## Beth y gallaf ei wneud os nad wyf yn fodlon â gofal neu ymddygiad nyrs neu fydwraig?

Dywedwch wrth rywun os nad ydych yn fodlon â safon y gofal neu'r driniaeth rydych yn ei gael neu yn dyst iddo, gan roi enw'r nyrs neu'r fydwraig dan sylw. Drwy ddweud yr hyn rydych yn ei feddwl am eich profiadau rydych yn helpu i wella gwasanaethau.

Yn gyntaf, y peth gorau i'w wneud yw codi eich pryder yn lleol, ble cawsoch neu ble gwelsoch y gofal. Gallai hyn fod mewn ysbyty, cartref gofal neu rywle arall. Gall rheolwyr lleol ddelio â'ch pryder yn gyflymach drwy ddefnyddio eu gweithdrefnau eu hunain. Gellid datrys y mater gyda chwyn swyddogol, ond byddai cwyn hefyd yn cael ei harchwilio.

## Ble y gallaf gael rhagor o gyngor am fy mhryder?

Gellir delio â llawer o faterion yn anffurfiol. Mae cleifion a theuluoedd weithiau yn poeni, o ganlyniad i godi pryderon, y cânt hwy neu eu hanwyliaid eu trin yn wael. Fodd bynnag, mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i nyrsys a bydwragedd ymateb mewn ffordd adeiladol a pheidio â gwahaniaethu yn erbyn cleifion mewn unrhyw ffordd. Mae llawer o ffynonellau o gyngor ar godi pryderon a gwneud cwynion.

### Yn Lloegr

Gall eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol roi cyngor. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth ar-lein yn **www.citizensadvice.org.uk** neu drwy ffonio **08444 111 444**. Gallwch hefyd ddod o hyd i wybodaeth am weithdrefnau cwyno'r GIG ar-lein yn **www.nhs.uk/choiceintheNHS/Rightsandpledges/complaints/Pages/NHScomplaints.Aspx.** Ar y wefan hon gallwch hefyd chwilio am eich gwasanaeth ymgysylltu a chyngor i gleifion lleol (PALS) a all eich helpu i ddelio â chwyn llai difrifol.

Mae gwefan Eiriolaeth Cwynion y GIG hefyd yn cynnig cyngor da yn **www.nhscomplaintsadvocacy.org** neu gallwch ffonio eu llinell gymorth ar **0300 330 5454**. Os bydd eich pryder yn ymwneud â lleoliad gofal neu iechyd yn hytrach na nyrsys neu fydwragedd unigol yn Lloegr, yna hoffai'r Comisiwn Ansawdd Gofal glywed gennych (**www.cqc.org.uk**). Mae Healthwatch England yn eiriolwr annibynnol dros ofal cymdeithasol ac iechyd, gyda sefydliadau lleol ledled Lloegr. Ewch i **www.healthwatch.co.uk** neu ffoniwch **03000 62 3000**.



### Yn yr Alban

Mae Health Rights Information Scotalnd yn cyhoeddi taflen ddefnyddiol, sef 'Giving feedback' or making a complaint about the NHS', sydd ar gael yn **www.hris.org.uk**. Gall Healthcare Improvement Scotland eich helpu os bydd eich cwyn yn ymwneud â'r lleoliad gofal iechyd yn hytrach nag unigolyn. Ewch i **www.healthcareimprovementscotland.org** neu ffoniwch **0131 623 4300**. I gael cyngor mwy cyffredinol, dewch o hyd i'ch swyddfa Cyngor ar Bopeth leol drwy fynd ar **www.cas.org.uk** neu drwy ffonio **0808 800 9060**.

### Yng Nghymru

Ewch i **www.citizensadvice.org.uk** neu ffoniwch **0844 477 2020** i gael manylion am eich swyddfa cyngor ar bopeth leol. Mae cymorth a chyngor ar gael o'ch cyngor iechyd cymuned lleol. Ewch i wefan GIG Cymru **www.wales.nhs.uk/cym** neu ffoniwch **08456 447 814** i ddod o hyd i'ch cangen leol ac i gael y daflen wybodaeth 'Gweithio i Wella'.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (**www.agic.org.uk**) yw'r rheoleiddiwr ar gyfer lleoliadau gofal iechyd.

### Yng Ngogledd Iwerddon

Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar wefan y llywodraeth (**www.nidirect.gov**) am wneud cwyn, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer ymddiriedolaethau'r GIG. Yr Awdurdod Gwella Ansawdd a Rheoleiddio sy'n rheoleiddio lleoliadau gofal iechyd yng Ngogledd Iwerddon (**www.rqia.org.uk**). I gael cyngor cyffredinol, ewch i **www.citizensadvice.co.uk** neu ffoniwch **028 9023 6522**.

## Os na chaiff fy mhryder ei datrys yn lleol, beth arall y gallaf ei wneud?

Cysylltwch â ni os na fydd unrhyw un wedi ymdrin â'ch pryder neu os ydych yn meddwl bod nyrs neu fydwraig wedi torri'r Cod yn ddifrifol a gallai hynny gael effaith ar p'un a ddylai barhau i ymarfer. Gallwch godi hyn ar ein gwefan **www.nmc-uk.org** neu ffoniwch ni ar **020 7462 5800**.

Gallwch weld enghreifftiau o faterion y gellid eu cyfeirio atom yn **www.nmc-uk.org/hearings**.

Bydd yn rhaid i chi gytuno i rannu'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu gyda'r rhai sy'n ymwneud â'ch pryder fel y gallwn ymchwilio iddo. Bydd angen enw'r nyrs neu'r fydwraig arnom hefyd. Os nad ydych yn fodlon rhannu'ch manylion, yna gallai hynny gyfyngu ar yr hyn y gallwn ei wneud. Ond rydym yn awyddus i glywed beth sydd gennych i'w ddweud wrthym.

## Pa gamau y bydd CNB yn eu cymryd?

Byddwn yn penderfynu a oes rhaid i ni gymryd camau rheoleiddio yn seiliedig ar eich pryder. Yna gallem wneud y canlynol:

- ymchwilio i weld a oes achos i'w ateb ac a allai hyn effeithio ar gofrestriad y nyrs neu'r fydwraig
- cynnal gwrandawiad neu gyfarfod i benderfynu a yw addasrwydd y nyrs neu'r fydwraig i ymarfer yn ddiffygiol,
- penderfynu a oes angen gweithredu. Gallai hyn fod yn rhybudd, cyfyngiadau ar ymarfer, gwaharddiad neu eu tynnu oddi ar ein cofrestr.

Gallwn dynnu neu gyfyngu hawl nyrs neu fydwraig i ymarfer tra byddwn yn ymchwilio p'un a yw'n peri risg uniongyrchol a difrifol i gleifion.

**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.nmc-uk.org neu ffoniwch 020 7333 9333**



# Diogelu'r cyhoedd drwy reoleiddio